**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Y Cabinet

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 15 Tachwedd 2018 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M C Child | W Evans | R Francis-Davies |
| A S Lewis | M Sherwood | M Thomas |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): D H Hopkins, C E Lloyd a/ac J A Raynor

---

## 82. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y cysylltiadau canlynol:

1. Datganodd y Cynghorydd M C Child gysylltiad personol â Chofnod 90, "Adolygiad Blynyddol o Daliadau (am Wasanaethau Cymdeithasol) 2018/19" – mae fy mam yn derbyn gofal gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ond rwyf wedi cael goddefeb gan y Pwyllgor Safonau.

2. Datganodd y Cynghorydd J A Raynor gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 92 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol" a gadawodd y cyfarfod cyn ei ystyried.

3. Datganodd y Cynghorwyr M C Child, R Francis-Davies, W Evans, A S Lewis, M S Sherwood, R C Stewart ac M Thomas gysylltiad personol â Chofnod 91, "Lwfansau TGCh Cynghorwyr - Mai 2017 a'r tu hwnt".

## 83. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod(ydd) a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2018.

## 84. Adroddiad(au) Arweinydd y Cyngor.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at faterion diweddar a oedd yn ymwneud â chyfathrebiadau'n cael eu hanfon at ddisgyblion a rheini yn ysgolion cyfun a chynradd Gellifedw. Nododd fod yr awdurdod yn ymchwilio i'r mater a chyhoeddir datganiad cyn bo hir.

Cyfeiriodd hefyd at yr adroddiadau diweddar yn y wasg a oedd yn ymwneud â cholli swyddi'n orfodol. Datganodd y bydd yr awdurdod, fel yn y blynyddoedd blaenorol, yn

ceisio archwilio pob opsiwn ar gyfer arbedion a byddai swyddi'n cael eu colli'n orfodol fel dewis olaf yn unig.

## 85. Cwestiynau gan y cyhoedd.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 86. Hawl i holi cynghorwyr.

Mewn perthynas â "Strategaeth Digartrefedd a Chynllun Gweithredu 2018-22", gofynnodd y Cynghorydd J E Burtonshaw i Aelod y Cabinet dros Gartrefi ac Ynni a fyddai'n ystyried ychwanegu at y strategaeth a'r cynllun gweithredu "gweithio gydag aelodau Cymuned Cyfamod y Lluoedd Arfog i geisio cynorthwyo'r cyn-filwyr hynny sy'n cysgu allan".

Nododd Aelod y Cabinet dros Gartrefi ac Ynni y byddai'n hapus i gynorthwyo cyn-filwyr ac ychwanegu hyn at y strategaeth.

## 87. Craffu Cyn Penderfyniad - Strategaeth a Chynllun Gweithredu Digartrefedd 2018-2022.

Cyflwynodd y Cynghorydd y Cynghorydd TJ Hennegan yr adborth craffu cyn penderfynu.

Diolchodd Aelod y Cabinet dros Gartrefi ac Ynni i'r tîm craffu am y llythyr a'r mewnbwn.

## 88. Strategaeth a Chynllun Gweithredu Digartrefedd 2018-2022.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gartrefi ac Ynni adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth am Strategaeth Digartrefedd a Chynllun Gweithredu 2018-2022, sydd wedi ystyried adborth o'r ymarfer ymgynghori a gynhaliwyd.

Diolchodd am fewnbwn y tîm craffu, PDP Tlodi a'r cyhoedd wrth lunio'r ddogfen a thalodd deyrnged i swyddogion yr Adran Tai am eu mewnbwn.

Nododd y byddai'r cynllun gweithredu'n destun adolygiad a diweddariad blynyddol i'r Cabinet.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

1) Cymeradwyo'r Strategaeth Digartrefedd a'r Cynllun Gweithredu gyda'r diwygiad y cyfeiriwyd ato yng Nghofnod 86 uchod i'w rhoi ar waith erbyn 31 Rhagfyr 2018.

## 89. Monitro Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf - Chwarter 2il 2018/19.

Cyflwynwyd adroddiad gan y Swyddog Adran 151 a oedd yn adrodd am y broses o fonitro ariannol cyllidebau refeniw a chyfalaf 2018/19, gan gynnwys cyflwyno arbedion cyllidebol.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi'r sylwadau a'r amrywiadau yn yr adroddiad hwn a'r camau gweithredu sydd ar y gweill er mwyn mynd i'r afael â'r rhain.

## 90. Adolygiad Blynyddol o Daliadau (am Wasanaethau Cymdeithasol) 2019/19

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Ofal, Iechyd a Heneiddio'n Dda adroddiad a oedd yn amlinellu Adolygiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol o Daliadau (am Wasanaethau Cymdeithasol) 2018/19. Mae'r adroddiad yn nodi rhestr y cyngor o daliadau arfaethedig am wasanaethau cymdeithasol 2019/20 a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2019.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi adroddiad yr Adolygiad Blynyddol o Daliadau (am Wasanaethau Cymdeithasol) 2018/19 gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.

2) Cymeradwyo'r rhestr o daliadau arfaethedig ar gyfer 2019/20 a amlinellir yn yr adroddiad.

## 91. Lwfansau TGCh Cynghorwyr - Mai 2017 a'r Tu Hwnt.

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a oedd yn cynnig ailfformatio Lwfansau TGCh Cynghorwyr - Mai 2017 a thu hwnt sydd wedi'i ddiwygio a'i fabwysiadu'n ddiweddar, er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'w gyhoeddi ar-lein.

**Penderfynwyd:**

1) Mabwysiadu Lwfansau TGCh Cynghorwyr - Mai 2017 a thu hwnt fel a amlinellir yn Atodiad A yr adroddiad yn ei fformat newydd.

## 92. Penodiadau Llywodraethwyr Awdurdod Lleol.

Cyflwynodd Grŵp Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol (ALl) ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol a argymhellwyd gan y Prif Swyddog Addysg ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes:

| | |
|---|---|
| 1. Ysgol Gynradd y Glais | Y Cyng. Alyson Pugh |
| 2. Ysgol Gynradd Tre-gŵyr | Y Cyng. Susan Jones<br>Mr Lyndon Mably |
| 3. Ysgol Gynradd Llangyfelach | Mr Raymond Brown |
| 4. Ysgol Gynradd Pentrechwyth | Mr John Winchester |

| | |
|---|---|
| 5. Ysgol Gyfun yr Esgob Gore | Dr Martin O'Neil |
| 6. Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt | Mrs Ruth McNamara |
| 7. Ysgol Gyfun Pontarddulais | Mr Craig Wade |
| 8. Ysgol Gyfun Gŵyr | Y Parchedig Ddr Adrian Morgan |

## 93. FPR7 - Buddsoddiad Cyfalaf mewn Canolfannau Hamdden mewn Partneriaeth â Freedom Leisure

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth adroddiad a oedd yn cynnig cadarnhau lefel y cyllid ar gyfer cynigion datblygu cyfalaf canolfannau hamdden mewn partneriaeth â Freedom Leisure.

Roedd angen yr adroddiad er mwyn cydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol (Rhaglennu ac Arfarniadau Cyfalaf) i ymrwymo i'r cynlluniau, a'u hawdurdodi, fel a nodir yn y tendr gan Freedom Leisure, yn rhaglen gyfalaf y cyngor.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo egwyddorion cyffredinol datblygu cyfalaf ynghyd â'u goblygiadau ariannol;

2) Rhoi awdurdod i ddefnyddio'r cyfalaf a fenthycir ac i awdurdodi'r cynlluniau a geir o fewn egwyddorion datblygu cyfalaf;

3) Datblygu Bwrdd Prosiect i reoli'r cynlluniau unigol gyda chynrychiolaeth addas gan swyddogion;

4) Archwilio cyfleoedd am arian grant mewn partneriaeth â Freedom Leisure er mwyn cynyddu lefel y cyfalaf sydd ar gael i wella'r cynigion datblygu ymhellach ac ehangu, os yw'n ymarferol, adnewyddiadau i gyfleusterau eraill.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.50 am

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 16 November 2018 |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | 21 Tachwedd 2018 |
| Penderfyniad yn dod i rym: | 22 tachwedd 2018 |